



**Arolygiaeth Gofal
Cymru**
Care Inspectorate
Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru

Deddf Safonau Gofal 2000

Adroddiad Arolygu

**This report is also available in English / Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn
Saesneg**

Age Cymru Gwynedd a Môn

Caernafon

Math o arolygiad – Llawn

Dyddiad(au) yr arolygiad – Dydd Iau, 8 Tachwedd 2018

Dyddiad cyhoeddi – Dydd Llun, 28 Ionawr 2019

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Crynodeb

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn wasanaeth sy'n darparu gofal cartref yn ogystal â nifer o wasanaethau eraill i bobl hŷn, pobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu, a phobl â diffyg/nam ar y synhwyrau. Ar hyn o bryd, mae chwe pherson yn derbyn gofal personol gan y gwasanaeth.

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn wedi penodi unigolyn cyfrifol ar gyfer y cwmni. Mae dau reolwr, sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Symudwyd swyddfeydd yr asiantaeth i bentref ar gyrion Caernarfon, sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Pa fath o arolygiad a gynhaliwyd?

Gwnaethom ni, Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), gynnal arolygiad llawn ddydd lau 8 Tachwedd, rhwng 9:00am a 3.45pm. Roedd hwn yn arolygiad sylfaenol, wedi'i drefnu, a oedd yn canolbwyntio ar ansawdd y bywyd, ansawdd y staffio ac ansawdd arwain a rheoli.

Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Trafodaeth dros y ffôn ag un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Trafodaethau dros y ffôn â thri pherthnasau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Trafodaethau dros y ffôn ag un gweithiwr gofal.
- Trafodaeth fer â'r unigolyn cyfrifol.
- Trafodaeth ag un rheolwr.
- Sampl o gofnodion mewn perthynas â thri pherson sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Sampl o gofnodion y staff.
- Fersiynau dwyieithog o'r Datganiad o Ddiben.
- Fersiynau dwyieithog o bolisiau'r gwasanaeth.
- Cynllun busnes y gwasanaeth.
- Copïau o gofnodion y cyfarfodydd gwasanaeth a gynhaliwyd yn ystod y ddau fis blaenorol.

Beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda?

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal cyson, sy'n darparu o leiaf un awr o ofal. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol wrth adolygu cynlluniau gofal y bobl mewn modd amserol, ac yn eu haddasu yn ôl yr angen.

Beth sydd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf?

Mae'r gwasanaeth yn darparu sesiynau goruchwyllo ffurfiol i'r gweithwyr gofal, a hynny bob chwarter.

Beth sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth?

Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd i'w gwella ar ddiwrnod yr arolygiad.

Ansawdd Bywyd

Mae gan y bobl reolaeth a chânt eu galluogi wneud penderfyniadau. Maent yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac mae eu hunaniaethau a'u harferion unigol yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi. Dywedodd un person wrthym *"I don't know what I would do without the care I receive"*. Dywedodd unigolyn arall wrthym ei fod yn cael hyd at awr o ofal personol yr wythnos, a'i fod yn cael help gyda'r gwaith glanhau hefyd. Gwnaethom siarad ag un gweithiwr gofal, a ddywedodd wrthym ei fod yn mwynhau'r gwaith a'i fod yn gallu cymryd ei amser wrth ddarparu'r gofal, *"There are no half hours, we have the time to care for people properly without rushing"*. Dywedodd ei fod yn cynorthwyo'r bobl drwy ddarparu gofal personol, gwneud gwaith glanhau, a mynd â'r bobl i ble bynnag roedd angen iddynt fynd, gan gynnwys i siopa neu i apwyntiadau iechyd. Dywedodd, *"it depends what people chose to do"*. Gwnaethom siarad ag un rheolwr a ddywedodd wrthym, *'the care provided under the 'home care umbrella' includes sitting with people, shopping, personal care, outings and appointments; we want people to feel and be independent from having to ask friends and family, so we try to assist them where we can"*. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn perthyn, ac wedi meithrin cydberthnasau diogel a chadarnhaol.

Mae'r bobl wedi setlo ac yn gyfforddus â'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda ac yn rhoi gofal a chymorth cyson a pharhaus iddynt. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw mai'r un gweithiwr gofal a oedd yn gofalu amdanynt bob tro. Dywedodd un person wrthym, *"the carer is a god send"*. Dywedodd wrthym ei fod yn cael gofal personol gan yr un gweithiwr gofal bob dydd. Dywedodd aelod o'r teulu wrthym *"we sometimes feel our carer needs to take a day off as they are here everyday."* Gwnaethom siarad â'r gweithiwr gofal, a ddywedodd wrthym fod ei waith yn *"absolutely brilliant"* ac *"I wouldn't work anywhere else"*. Dywedodd y rheolwr wrthym, *"we try to keep people with the same carer and if they are on holiday, we aim to ensure the same cover carer steps in. We don't want a stranger providing personal care, as this can upset people"*. Mae'r bobl yn hapus ac yn fodlon.

Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, ac i fanteisio ar y driniaeth a'r feddyginiaeth gywir ar gyfer eu cyflwr. Dywedodd un person wrthym fod y gofalwr yn ei helpu i fynd i siopa bob wythnos. Dywedodd person arall wrthym ei fod yn cael cymorth i fynd i'r ysbyty lleol ar gyfer ffisiotherapi unwaith yr wythnos. Gwnaethom adolygu ei ffeil, a oedd yn dangos bod hyn yn digwydd unwaith yr wythnos, er mwyn helpu a chynnal ei symudedd. Roedd y wybodaeth a gofnodwyd hefyd yn dangos ei fod yn cael gofal traed; sef gwasanaeth ychwanegol i'r gofal cartref yr oedd yn ei gael. Dywedodd y rheolwr wrthym fod hwn yn wasanaeth y mae Age Cymru wrthi'n ei ddatblygu, am fod nifer o bobl yn gofyn am y gwasanaeth hwn. Gwelsom dri ffeil gofal, a oedd yn dangos bod y gofal a roddir yn cael ei asesu a'i adolygu'n drylwyr yn ôl anghenion unigol. Dywedodd y rheolwr *"we aim to ensure people are supported to live as healthy and independent life as possible"*. Mae'r bobl mor iach ac egniol ag y gallant fod.

Mae'r bobl sydd angen gwasanaeth yn Gymraeg yn gallu cael y gwasanaeth hwnnw.

(Cynnig Rhagweithiol) Gwnaethom siarad ag un person a oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Cawsom wybod gan reolwr y gwasanaeth mai Cymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif o'r bobl a oedd yn cael gofal personol. Dywedodd wrthym fod y gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelsom ddogfennaeth y gwasanaeth, gan gynnwys pecyn cyflogaeth y staff, y Datganiad o Ddiben a nifer o bolisiâu. Roedd y ddogfennaeth i gyd ar gael yn ddwyieithog. Yn ystod ein harolygiad, clywsom nifer o drafodaethau a galwadau ffôn a oedd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cawsom wybod fod cyfarfodydd tîm y gwasanaeth yn cael eu cynnal yn Gymraeg, am fod y rhan fwyaf o'r staff yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref 2018. Roedd y templedi'n ddwyieithog ac roedd y cofnodion wedi'u hysgrifennu yn Saesneg. Gall y bobl dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg.

Ansawdd y Staffio

Mae'r bobl yn ddiogel ac mor iach â phosibl, am eu bod yn cael gofal a chymorth rhagweithiol ac ataliol, a chaiff eu hystod eang o anghenion eu rhagweld. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn adnabod eu gweithwyr gofal yn dda. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y staff yn dda iawn wrth nodi unrhyw newidiadau o ran anghenion iechyd a bod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y rhain eu hadolygu, ac yn diweddarau'r gofal a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn ôl yr angen. Roedd y ffeiliau gofal a welsom yn cynnwys holiaduron adborth gan y bobl a oedd yn derbyn y gwasanaeth. Roedd un holiadur yn disgrifio'r gofal yn *"Excellent"*. Dywedodd holiadur arall *"Both carers I've had so far have been very kind, friendly and thoughtful"*. Roedd y ffeiliau'n nodi bod y gweithwyr gofal yn rhagweithiol wrth nodi unrhyw newidiadau o ran anghenion iechyd, ac yn dangos bod y ddogfennaeth yn cael ei diweddarau pan fyddai'n cael ei hadolygu bob chwe mis, neu yn ôl yr angen. Dywedodd y rheolwr *"People get to know their carers and the carers know the people they care for"*. Mae cydberthynas dda rhwng y bobl â'r staff.

Caiff y bobl ofal amserol a phriodol sy'n canolbwyntio ar y person. Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael gofal gan yr un gweithiwr gofal, ar yr un amser, bob dydd. Gwelsom ffeiliau a oedd yn dangos bod hynny'n wir; roedd taflenni amser yr ymweliadau'n dangos bod pob ymweliad yn cynnwys o leiaf awr o ofal. Dywedodd aelod o'r teulu wrthym ei fod yn cael oriau gofal estynedig pan oedd y gweithiwr gofal yn ymweld yn hwyrach nag arfer yn y nos. Dywedodd *"I really rely on Age Cymru for the help and could not manage without this service"*. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym nad oedd yn treulio llai na hanner awr yn darparu gofal personol. Dywedodd y rheolwr *"the difference we make is fantastic, I am confident we are doing a good job"*. Mae'r bobl yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir.

Mae'r bobl yn ymgysylltu'n rhagweithiol â'r broses o wneud dewisiadau am y gwasanaeth a gânt a'r ffordd maent yn treulio eu hamser. Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael ei gynnwys yn y broses o gynllunio ei ofal gyda'r gwasanaeth. Cawsom wybod gan y rheolwr ei fod yn cynnal asesiad o anghenion gyda'r bobl (a'u teuluoedd, lle bo'n berthnasol) cyn iddynt gael gofal personol. Roedd y ffeiliau gofal a welwyd yn cynnwys asesiadau anghenion cychwynnol, cynlluniau gwasanaeth ac asesiad risg, a tasgau gofal y gofynnwyd amdanynt; roedd y bobl neu aelod(au) o'r teulu'n llofnodi'r holl ddogfennaeth. Gwelsom fod y gweithwyr gofal wedi llofnodi a dyddio nodiadau dyddiol, yn ystod pob ymweliad. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y bobl yn rhoi gwybod iddynt pan fydd eu hanghenion yn newid neu pan fydd angen newid eu patrwm gofal. Dywedodd y rheolwr *"people's needs can change from week to week so it is important we are informed of any changes, so we can aim to accommodate people"*. Dywedodd fod y gweithwyr gofal yn dda iawn wrth roi gwybod am hyn. Rhagwelir a deallir anghenion a dewisiadau unigol y bobl.

Ansawdd Arwain a Rheoli

Mae'r bobl yn ymwybodol o'r llinellau atebolrwydd ac arweinyddiaeth, ac mae'r rheolwr cofrestredig yn weladwy, yn hawdd mynd ato ac yn ymateb i bryderon. Ni chodwyd unrhyw bryderon gyda'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf. Gwnaethom siarad â'r rheolwr ynglŷn â'i ymateb i unrhyw bryderon, gan gynnwys digwyddiadau neu ddiogelu. Dywedodd wrthym mai ei nod oedd ymateb i faterion o'r fath fel mater o flaenoriaeth er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â materion mewn modd amserol. Dangosodd ffeiliau digwyddiadau'r gwasanaeth i ni, a oedd yn dangos bod y wybodaeth a gofnodir yn gyson â'r wybodaeth a adroddir i AGC. Dywedodd un person sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym *"The service are good at dealing with any issues straight away, really"*. Gwelsom gopïau o gofnodion cyfarfodydd gwasanaeth/tîm blaenorol; esboniodd y rheolwr fod y templed wedi'i llunio er mwyn gallu adolygu materion sy'n codi yn ystod pob cyfarfod, gan sicrhau bod modd i swyddog penodedig gymryd y camau priodol, mewn modd amserol. Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion fod hyn yn digwydd a bod y tîm rheoli'n goruchwyllo hyn yn effeithlon. Gall y bobl, gan gynnwys y staff, fynegi eu pryderon.

Mae llesiant y staff yn flaenoriaeth i'r arweinwyr a'r rheolwyr, ac maent yn gwneud buddsoddiadau ac yn darparu cymorth. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y rheolwr yn derbyn nifer o alwadau ffôn gan y gweithwyr gofal. Gwelsom ei fod ar gael, yn ymatebol a'i fod yn hawdd mynd ato. Dywedodd aelod o'r staff wrthym ei fod yn cael cymorth da gan y gwasanaeth. Dywedodd wrthym, *"They always make sure I am OK"*. Dywedodd ei fod yn cael sesiynau goruchwyllo gan y rheolwr ar *"quarterly basis, but they are always available if I need to check something or need support"*. Gwnaethom adolygu ffeiliau'r staff, a oedd yn dangos bod y staff yn cael sesiynau goruchwyllo bob chwarter ac arfarniadau bob blwyddyn. Roedd y ddogfennaeth wedi'i hysgrifennu mewn modd parchus a chyflenwol, ac wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y tîm rheoli a'r staff. Gall y staff cael cymorth gan y tîm rheoli er mwyn iddynt reoli a gwella llesiant y bobl.

Mae gan y gwasanaeth ddull rhagweithiol o ran dysgu a datblygu'r staff, ac yn sicrhau bod hyfforddiant yn berthnasol i anghenion unigol y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Dywedodd y rheolwr wrthym fod pob aelod o'r staff yn cyflawni Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Dywedodd wrthym *"I don't want to start anyone until all the necessary training is complete and checked"*. Dangoswyd i ni ffeiliau'r staff a oedd wrthi'n cyflawni'r broses hon, a dywedodd y rheolwr wrthym fod pob aelod o'r staff yn trafod y rhain yn ystod y cyfarfodydd tîm a'r sesiynau goruchwyllo, ac yn darllen y polisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig; roedd y staff yn llofnodi'r ddogfennaeth pan fyddent yn hyderus eu bod yn gyfarwydd â nhw. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cyfarfodydd tîm, y sesiynau goruchwyllo a'r dogfennau polisi. Gwelsom gopi o'r matrices hyfforddiant ar gyfer y gweithwyr gofal, a oedd yn nodi'r dyddiadau roedd y staff wedi cyflawni'r hyfforddiant, neu'r dyddiadau roeddent yn mynd i gael yr hyfforddiant hwnnw. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys tystysgrifau a thystiolaeth o'r hyfforddiant gan gynnwys teitl a dyddiadau'r cyrsiau a gyflawnwyd gan y staff, gan gynnwys codi a chario, a diogelu. Gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau y byddai'r staff a oedd yn gofalu am y bobl ag anghenion penodol yn cael hyfforddiant yn y maes hwn,

er enghraifft 'Ymwybyddiaeth o ddementia'. Caiff pobl fudd o wasanaeth effeithlon lle gwneir y defnydd gorau o adnoddau

Mae gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn rhan annatod o'r gwasanaeth, ac yn dilyn gweithdrefnau sicrhau ansawdd rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn awyddus i sicrhau ansawdd wrth recriwtio staff. Roedd ganddynt broses glir lle roedd rhestr wirio staff yn cael ei monitro pan fyddai gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio. Cawsom wybod fod yr unigolyn cyfrifol wedi'i leoli ar safle'r gwasanaeth, ei fod yn bresennol gan amlaf, ac felly'n gallu goruchwyllo'r broses sicrhau ansawdd o ran gofal cartref ac unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir gan yr asiantaeth yn drylwyr. Gwnaethom gwrdd ag ef yn ei swyddfa ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol wrthym eu bod yn gwirio holl ffeiliau'r bobl sy'n cael gofal cartref bob dau fis. Dywedwyd wrthym eu bod yn gwybod pryd roedd angen cynnal adolygiadau gofal a'u diweddarau yn unol â hynny, gan mai dim ond nifer fach o bobl a oedd yn derbyn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd pob adolygiad gofal a welsom wedi'i adolygu a'i ddiweddarau bob chwe mis, neu yn ôl yr angen. Hefyd, gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn anfon holiaduron at y bobl a'u teuluoedd i gael adborth, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o'r holiaduron yn ffeiliau'r bobl. Roedd y sampl a welsom yn dangos bod yr adborth yn gadarnhaol. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth hefyd yn monitro ansawdd y gofal drwy'r cyfarfodydd tîm. Roedd fformat templed y cyfarfod yn dangos bod y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth fonitro camau ar gyfer gwella ac wrth sicrhau bod materion sy'n codi yn cael eu nodi ac yr ymdrinnir â nhw. Yn ogystal â darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, roedd y gwasanaeth hefyd yn awyddus i nodi unrhyw feysydd lle roedd angen o ran dewis y bobl; roedd y rhain yn cynnwys gwasanaeth anfon prydau a gofal traed. Roedd y rhain yn feysydd roedd y gwasanaeth yn bwriadu eu datblygu ar hyn o bryd, yn dilyn ceisiadau gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym ei fod wrthi'n cadarnhau pa reoliadau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn. Darparwyd cynllun busnes Age Cymru i ni; roedd hwn yn adnodd ychwanegol i fonitro datblygiad y gwasanaeth, yn unol â'r Datganiad o Ddiben, a oedd yn gyfredol ac yn glir. Caiff y bobl ofal o ansawdd uchel gan wasanaeth sy'n gosod targedau uchel iddo'i hun, sy'n ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwella'n barhaus.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd y safle'n hygyrch i'r holl bobl, gan gynnwys y bobl a oedd yn derbyn gwasanaeth gofal cartref a gwasanaethau eraill a ddarperir gan Age Cymru Gwynedd a Môn. Roedd y fynedfa'n gynnes, yn lân ac yn groesawgar.

Roedd digon o le yn yr adeilad ar gyfer storio adnoddau, ac roedd ystafelloedd ar gael ar y llawr cyntaf i gynnal cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi.

Sut rydym yn arolygu gwasanaethau ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt

Rydym yn cynnal dau fath o arolygiad: sylfaenol a phwyslais penodol. Mae'r ddau yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

- Mae **arolygiadau sylfaenol** yn asesu a oes cyfiawnhad dros gofrestru gwasanaeth ac a yw amodau'r cofrestriad yn briodol. Ar gyfer mwyafrif y gwasanaethau, rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn bob tair blynedd. Mae gwarchodwyr plant cofrestredig, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal sesiynol, meithrinfeydd a darpariaeth mynediad agored, ar y llaw arall, yn derbyn arolygiad bob pedair blynedd.

Ar adeg yr arolygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth Ddatganiad o Ddiben eglur ac effeithiol a bod y gwasanaeth yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben. Wrth asesu p'un a oes cyfiawnhad dros gofrestriad, bydd arolygwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos hanes o gydymffurfio â'r rheoliadau.

- Mae **arolygiadau sydd â phwyslais penodol** yn ystyried profiad y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddwn yn edrych ar p'un a yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn rhwng arolygiadau sylfaenol. Bydd arolygiadau sydd â phwyslais penodol bob amser yn ystyried ansawdd bywyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a byddant o bosibl yn edrych ar feysydd eraill.

Gall arolygiadau sylfaenol ac arolygiadau sydd â phwyslais penodol fod yn rhai sydd wedi'u trefnu neu gael eu cynnal mewn ymateb i bryderon.

Mae arolygwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau, a all gynnwys;

- Siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u cynrychiolwyr
- Siarad â'r staff a'r rheolwr
- Edrych ar ddogfennau
- Arsylwi ar yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl
- Edrych ar sylwadau a wnaed mewn holiaduron a ddychwelwyd gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, y staff, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol

Rydym yn arolygu ac yn nodi ein canfyddiadau dan 'Themâu Ansawdd'. Cyfeirir at y rhai hynny sy'n berthnasol i bob math o wasanaeth yn ein hadroddiadau arolygu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud yn ein taflen 'Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru'. Gallwch lawrlwytho hon o'n gwefan, [Gwella Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru](#), neu gallwch gysylltu â ni i ofyn i ni anfon copi atoch.

